

Steffan Rhys,
Golygydd Gweithredol,
Wales Online.

24 Mawrth 2017

Annwyl Mr Rhys,

Mynegi pryderon ynghlŷn â'r South Wales Evening Post

Rwy'n ysgrifennu atoch fel Cadeirydd Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi i nifer o bryderon gael eu mynegi i'r Cynulliad ynghylch uno South West Wales Media â Media Wales, yn arbennig ynghylch uno gwefan y South Wales Evening Post yn Abertawe â Wales Online.

O ganlyniad i'r uno, rydym yn cael ar ddeall am y canlynol:

- Bydd yn rhaid i ohebwy'r yn Abertawe deithio i Gaerdydd i gyflenwi pan fydd prinder staff. Mynegwyd pryderon ynghylch effaith hyn ar newyddion lleol yn y de-orllewin.
- Mae'r tîm gohebu yn Abertawe wedi colli aelod o staff i'r sector masnachol. Ymddengys na fydd aelod o staff newydd yn dod yn ei le, a fydd yn rhoi pwysau pellach ar y gwasanaeth a ddarperir yn y de-ddwyrain.
- Bydd staff ym mhob adran yn eich swyddfa yn Abertawe yn cael llai o dâl na'r staff cyfatebol yng Nghaerdydd (rydym yn cael ar ddeall eich bod yn gwybod am yr anghysondeb hwn ac wedi dweud nad ydych yn bwriadu gwneud unrhyw beth i unioni hyn).
- Mae hyfforddeion yn yr Evening Post ar gontract Trinity Mirror yn cael mwy o dâl nag uwch-ohebwy'r a golygwyr adran yr Evening Post, sydd hefyd yn dangos faint o anghysondeb sydd o ran tâl.
- Ceir anghysondeb hefyd o ran yr amodau salwch i aelodau o staff, gyda staff yr Evening Post yn cael amodau llai ffafriol na staff ar gontractau Trinity Mirror.
- Ni fydd cynrychiolwyr staff bellach yn cael cyfarfodydd am y materion hyn gyda'r rheolwyr.
- Hefyd, rydym yn cael ar ddeall nad oes amodau diswyddo'n cael eu cynnig a bod staff yn cael eu cynghori i adael os nad ydynt yn fodlon â'u sefyllfa bresennol.

Ar ran y Pwyllgor, hoffwn fynegi fy mhryder difrifol ynghylch y materion hyn.



Rwy'n ymwybodol wrth gwrs nad wyf o reidrydd wedi cael y darlun llawn.
Byddwn yn ddiolchgar felly pe gallech roi rhyw fath o sicrwydd i mi fel mater o
frys.

Yn gywir,

Bethan Jenkins

Bethan Jenkins AC

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

